

Rhwydweithio



Mae rhwydweithio'n ddull o ofyn i rywun yr ydych chi'n ei (h)adnabod i'ch helpu chi neu i'ch *cyflwyno* chi i rywun a all eich helpu. Mewn gair, mae'n fater o siarad â phobl. Peth rhwydd yw dechrau datblygu'ch rhwydwaith eich hun o gysylltiadau defnyddiol drwy siarad â'ch ffrindiau a'ch teulu am eich ymgais i chwilio am waith. Ar y cyfan, bydd pobl yn barod iawn i helpu eraill os gallant. P'un a ydych chi'n rhwydweithio i gael gwybodaeth am faes gyrfa posibl neu i chwilio am farchnad y swyddi cudd, cewch chi fwy o lwyddiant os byddwch chi'n glir eich meddwl am yr hyn y mae arnoch ei eisiau a'r hyn sydd gennych i'w gynnig.

➤ Pam rhwydweithio?

- Rhwydweithio i chwilio am farchnad y swyddi cudd

O'i fabwysiadu'n strategaeth chwilio-am-swydd, gall rhwydweithio gynyddu llawer iawn ar eich siawns o gael swydd drwy eich galluogi chi i chwilio am farchnad y swyddi cudd. Marchnad y swyddi cudd yw'r llu swyddi na chânt byth eu hysbysebu ac a gaiff eu llenwi fel arfer drwy geisiadau ar hap, drwy wahodd unigolion penodol i ymgeisio amdanynt neu drwy drosglwyddiadau mewnol. Yn ôl rhai amcangyfrifon, swyddi o'r fath yw mwy na 50% o'r farchnad swyddi.

➤ Rhwydweithio i gael gwybodaeth

Gall rhwydweithio roi gwybodaeth amhrisiadwy i chi, hyd yn oed cyn i chi ddechrau chwilio am waith. Ystyriwch fanteision cynnal eich cyfweiliad gwybodaeth eich hun. Bydd cyfweiliad gwybodaeth yn rhoi llai o bwysau arnoch na chyfweiliad am swydd am y cewch chi ddewis pwy i siarad ag ef neu hi, dewis pa gwestiynau i'w gofyn, a phwyso a mesur y canlyniadau. Bydd yn cynyddu'ch rhwydwaith ac yn rhoi gwybodaeth uniongyrchol i chi am yrfa neu ddiwydiant drwy i chi gyfarfod am ychydig â rhywun sy'n gweithio yn yr yrfa neu'r diwydiant dan sylw.

Drwy siarad â phobl allweddol a all roi cipolwg i chi ar y gwaith y mae gennych ddiddordeb ynddo, a'r ffyrdd o'i wneud, cewch wybod rhagor am y swyddi, y diwylliannau sefydliadol, y sectorau cyflogaeth a'r sefydliadau unigol sydd o ddiddordeb i chi. Byddwch hefyd yn gallu darganfod sut mae cael profiad a hyfforddiant perthnasol, a chewch gipolwg ar y ffordd y gallai'ch gyrfa ddatblygu yn y meysydd hynny. Gallwch chi hefyd ddileu'r dewisiadau llai addas.

➤ Cyn dechrau rhwydweithio...

- Penderfynwch ar yr hyn mae arnoch eisiau ei gyflawni

Meddylwch yn ofalus. Efallai y bydd arnoch chi eisiau gwybod rhagor am swydd neu yrfa benodol neu sut beth fyddai gweithio mewn sector cyflogaeth penodol fel manwerthu neu lywodraeth leol. Neu efallai eich bod chi ymhell y tu hwnt i'r cam hwnnw ac yn chwilio am gyfle i wneud argraff ar ddarpar gyflogwr drwy ddangos iddo/iddi beth y gallwch ei wneud. Os felly, dylech hefyd droi at daflen y Gwasanaeth Gyrfaoedd "Ceisiadau ar hap". Hyd yn oed os ydych chi'n chwilio am swydd, mae'n fwy na thebyg mai peth doeth yw gofyn am gyngor neu wybodaeth, i ddechrau, gan fod hynny'n fwy tebyg o sicrhau ymateb. Ond cyn dechrau rhwydweithio, rhaid i chi fod yn glir eich meddwl ynglŷn â'r hyn sydd gennych chi i'w gynnig i ddarpar gyflogwr.

- Byddwch yn glir eich meddwl ynglŷn â'r hyn y gallwch ei gynnig



Paratoi yw'r allwedd i rhwydweithio'n llwyddiannus. Ewch ati i bwysu a mesur eich sgiliau, eich diddordebau, eich gwerthoedd a'ch profiad i greu darlun cliriach o'r hyn y gallwch ei gynnig i ddarpar gyflogwr ac i addasu'ch ymchwil am swydd i gyd-fynd yn fwy effeithiol â'ch dymuniadau. Gallech chi ddechrau drwy ystyried eich datblygiad personol yma yn y brifysgol yn Aberystwyth, a hynny efallai drwy ddefnyddio GraddedigionAber.

Os bydd arnoch chi, fel llawer o rai eraill, angen peth help i bwysu a mesur eich sgiliau, i gynhyrchu syniadau ac i wneud peth gwaith ymchwil cychwynnol yn y meysydd yr ydych chi'n ymddiddori ynddynt, gwnewch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Gyrfaoedd.

Ymchwiliwch i Prospects Planner gan fod hwnnw'n werthfawr dros ben wrth ymchwilio i yrfaeod a'ch asesu'ch hun. Mae ef wedi'i gynllunio i'ch helpu i ganfod eich cymhellion, eich diddordebau a'ch sgiliau a dod o hyd i amrywiaeth o bosibiliadau galwedigaethol - www.prospects.ac.uk/planner.

Hyd yn oed os ydych chi'n rhwydweithio i gael gwybodaeth, po fwyaf celfydd fydd eich cyflwyniad ohonoch chi'ch hun, a pho fwyaf y byddwch yn eich adnabod eich hun, mwyaf yn y byd fydd y budd a gewch chi o'ch profiad o rwydweithio.

➔ Adnabod eich targed

Pan fyddwch chi'n glir yn eich meddwl ynghylch beth y gallwch ei gynnig, bydd angen i chi ddeall y sector cyflogaeth, y diwydiant neu'r cyflogwr y byddwch chi'n ei dargedu. Unig ganolbwynt sylw'r mwyafrif o bobl fydd dod o hyd i wybodaeth am y swydd y maent yn ei thargedu. Ond byddwch chi'n fwy effeithiol wrth chwilio am waith os byddwch chi, wrth ymgeisio am swydd, hefyd yn deall y sector cyflogaeth a'r diwydiant, a bydd ychydig o ymchwil yn eich helpu chi i'ch cyflwyno'ch hunan yn effeithiol a chael y budd mwyaf o unrhyw drafodaeth.

Ar wefan **Prospects**, www.prospects.ac.uk, cewch adran ragorol ar **ymchwilio i sectorau swyddi** ac ynddi cewch gysylltau i broffiliau swyddi ym mhob sector. Cewch wybodaeth am gyflwr y diwydiant ddoe, heddiw ac yfory yn ogystal â sut mae torri i mewn i'r sector, y mathau o swyddi sydd ar gael, astudiaethau achos a chysylltiadau ac adnoddau amhrisiadwy i'ch helpu i gynyddu'ch rhwydwaith. Mae'r adran ar **fathau o swyddi** yn canolbwyntio ar swyddi penodol yn hytrach na diwydiannau cyfan ac yn eich helpu i nodi'r union sgiliau a nodweddion y bydd arnoch eu hangen. Cwyn cyflogwyr ym mhob sector yw bod y rhai sydd newydd raddio yn dod atynt â digon o wybodaeth ddamcaniaethol ond yn gymharol brin eu sgiliau trosglwyddadwy. *Cofiwch y gall diwylliant, strwythur a gweithgarwch masnachol sefydliad olygu bod gwahaniaethau cynnil yn y sgiliau a'r nodweddion sy'n ofynnol yn rolau swyddi tebyg.*

Ar wefan y **Fforwm Cenedlaethol Arweiniad i Ymchwil**, www2.warwick.ac.uk/fac/soc/ier/ingrf, cewch wybodaeth am y farchnad lafur, sef ffrwyth ymchwil Sefydliad Ymchwil Prifysgol Warwick i Gyflogaeth. Sonir am y tueddiadau rhanbarthol a chenedlaethol mewn cyflogaeth ar draws amrywiaeth mawr o sectorau ym Mhrydain, a rhoir gwybodaeth am gyrchfannau graddedigion o ran gyrfaoedd.

Defnyddiwch adnoddau fel www.prospects.ac.uk a www.yell.com i ehangu'ch chwilio. Defnyddiwch Nexis, sydd ar gael yn: www.aber.ac.uk/cy/is/elecinfo/eiaz/#N, i ymchwilio i gyflogwyr mawr.



➔ Sut mae rhwydweithio

Cynhyrchu cysylltiadau...

Ar ôl i chi wneud eich ymchwil a chael gwybod rhywfaint am y maes y mae gennych ddi-ddordeb ynddo, ac yna benderfynu ar yr hyn y mae arnoch ei eisio ac y gallwch ei gynnig, byddwch chi mewn sefyllfa gref iawn i rwydweithio. Dechreuwch drwy ddweud wrth bawb eich bod chi'n chwilio. Y newyddion da yw eich bod chi eisoes yn perthyn i lu o rwydweithiau defnyddiol. Mae'n werth:

- Gofyn i'r rhai yr ydych yn eu hadnabod am gyfweiliad gwybodaeth neu i'ch cyfeirio ymlaen. Dechreuwch drwy ofyn i'ch cyfeillion a'ch teulu, y bobl ar eich cwrs a'r bobl yr ydych yn gweithio gyda hwy yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau. Cofiwch am y cysylltiadau a wnaethoch mewn lleoliadau profiad gwaith ac unrhyw brofiadau blasu gwaith yr ydych wedi'u cael.
- Gofyn i'r staff academaidd: efallai fod ganddynt hwy gysylltiadau rhagorol â'r sector cyflogaeth yr hoffech fynd iddo.
- Rhoi cynnig ar ffynonellau eraill - staff y gwasanaeth gyrfaoedd, cymdeithasau myfyrwyr, cynfyfyrwyr a gwefannau megis Facebook a LinkedIn.
- Mynd i gynadleddau, arddangosfeydd a digwyddiadau gyrfa.
- Cysylltu â chymdeithasau proffesiynol yn eich maes gan eu bod yn aml yn cynhyrchu rhestrau o'u haelodau unigol a chorfforaethol ac weithiau'n cyflogi staff hyfforddi proffesiynol sy'n debyg o fod yn barod iawn i siarad â chi.

➔ Trefnwch eich hun!

Mae'ch trefnu'ch hun mor bwysig â chynhyrchu cysylltiadau:



- Penderfynwch faint o gysylltiadau y byddwch chi'n ceisio'u gwneud bob dydd, bob wythnos neu bob mis i gyrraedd eich nod. Ceisiwch sicrhau bod pob cyfarfod neu drafodaeth a gewch chi yn dod ag o leiaf ddau gysylltiad newydd i chi, a hynny drwy ofyn am i chi gael eich cyfeirio ymlaen atynt.
- Cyfunwch y trywyddau yr ydych wedi'u sicrhau drwy rwydweithio â'ch ymchwil i sectorau swyddi a sefydliadau i greu rhestr o gwmnïau ac unigolion yr hoffech gysylltu â hwy.

➔ Cysylltu â'ch targed

Penderfynwch yn ofalus sut y byddwch chi'n cysylltu â'ch targed:

Sut bynnag y gwnewch chi hynny, cofiwch wneud argraff gyntaf dda. Mynnwch bob amser fod gennych gopi glân o'ch CV, a hwnnw wedi'i dargedu'n ofalus, er mwyn i chi allu ei roi i ddarpar gyswllt yn gwbl ddiraffferth.

Os byddwch chi'n ysgrifennu at sefydliad i drefnu cyfweiliad gwybodaeth a chithau heb enw cyswllt penodol, ewch ati i ymchwilio tan i chi ddod o hyd i un. Peidiwch â phoeni os bydd y mwyafrif yn araf i ateb. Byddwch yn barod i fynd ar ôl eich cysylltiadau drwy wneud galwad ffôn gwrtais.

Defnyddio e-bost. Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio e-bost os nad ydych chi'n adnabod y sawl yr ydych chi'n cysylltu ag ef neu hi, hyd yn oed os oes gennych enw cyswllt. Er y dylech chi gyfeirio llythyrau at rywun wrth ei (h)enw mewn sefydliad i sicrhau y cewch chi ymateb, gall gysylltu drwy e-bost â phobl nad ydych chi'n eu hadnabod gael ei ystyried yn beth ymwithgar i'w wneud.

Ffonio. Os ydych chi'n nerfus, lluniwch sgrïpt syml rhag i chi ddrwsu. Esboniwch fod arnoch eisïau dysgu am y diwydiant, y sefydliad neu'r yrfa a holwch a oes gan yr unigolyn beth amser i siarad â chi'n awr, neu'n ddiweddarach, neu gyfarfod â chi wyneb yn wyneb i gynnal cyfweiliad gwybodaeth.

Cyfweiliadau dros y ffôn neu Gyfweiliadau Gwybodaeth. Lluniwch restr fer o gwestiynau i'w gofyn:

- **Cefndir:** Dywedwch wrtho i sut y dechreuoch chi yn y maes hwn. Pa gefndir addysgol allai fy helpu i fentro i'r maes?

- **Amgylchedd Gweithio:** Beth yw dyletswyddau'ch swydd o ddydd i ddydd? Pa sgiliau/alluoedd sy'n eich helpu i lwyddo yn y gwaith?
- **Materion Allweddol:** Beth yw'r materion anoddaf y byddwch chi'n delio â nhw? Pa broblemau sy'n codi yn y sector hwn? Pa broblemau sy'n codi yn y sefydliad cyfan? Beth sy'n cael ei wneud i ddatrys y problemau hynny?
- **Ffordd o Fyw:** Pa rwymedigaeth y mae'ch gwaith yn ei gosod arnoch chi y tu allan i'r wythnos waith? Faint o hyblygrwydd sydd gennych chi o ran gwisg, oriau gwaith, gwyliau?
- **Budd:** Beth, yn eich profiad chi, sydd fwyaf buddiol ynglŷn â'r gwaith hwn - er enghraifft, cael boddhad o'ch gwaith, cyfleoedd i gael hyfforddiant, cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, yr arian?
- **Enillion:** Ar ba lefel o gyflog y byddai gweithiwr newydd yn dechrau? Beth yw'r manteision eraill? Beth yw'r ffurfiau eraill ar iawndal a buddion? (bonws, comisiwn, pensiwn). Faint allwn i ei ennill yn y gwaith hwn yn y dyfodol?

Datblygu system i gofnodi pwy y gwnaethoch chi siarad â hwy, yr hyn a drafodwyd, a'ch cynllun i fynd ymhellach ar y trywydd hwnnw. Cofiwch eich bod chi bob amser yn anfon llythyr neu e-bost i ddiolch.

➔ Myfyriwr Uwchraddedig?

I sicrhau gyrfa lwyddiannus yn y byd academiaidd, mae'n bwysig rhwydweithio. Yn ogystal â'r cyfan uchod, dylech chi geisio meithrin perthynas dda â'ch goruchwylwyr a siarad â'r staff ymchwil dan gontract am y gwaith y maent yn ei wneud a sut y cânt eu hariannu. Holwch beth sy'n digwydd yn eich maes chi a gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod tipyn go lew am yr ymchwil ddiweddaraf.



Bydd angen i chi wybod pwy yw'r ceffylau blaen yn y byd academiaidd a'r tu hwnt iddo. Ymunwch â chorff proffesiynol. Ewch i gynadleddau - i weld a chael eich gweld. Cyflwynwch bapurau a lluniwch erthyglau. Ewch i wefan Vitae (www.vitae.ac.uk) i gael amrywiaeth o adnoddau defnyddiol i'ch helpu yn eich ymgais i rwydweithio. Mae gan wefan Prospects, hefyd, adran sydd wedi'i neilltuo i ddod o hyd i swydd gyda'ch PhD (www.prospects.ac.uk/your_phd_what_next.htm).

➤ Adnoddau

Chwiliwch dudalennau chwilio am swydd ar Prospects sy'n cynnwys canllawiau defnyddiol am rwydweithio i'ch helpu i gynhyrchu eich rhwydwaith eich hun.

Defnyddiwch eich Gwasanaeth Gyrfaedd i gael cymorth ymarferol i dargedu'ch CV, llunio llythyr cyflwyno, a pharatoi ar gyfer cyfweiliad gwybodaeth.

Ewch i weithdy a/neu manteisiwch ar y sesiynau galw i mewn 15 munud gydag Ymgynghorydd Gyrfaedd neu archebwch apwyntiad hwy na hynny ymlaen llaw.

Darllenwch daflenni Gwasanaeth Gyrfaedd Aberystwyth sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg a gweithredwch arnynt: taflenni fel "Gwneud y gorau o'ch amser gydag Ymgynghorydd Gyrfaedd"; "CV", "Llythyrau Cyflwyno"; "Profiad Gwaith"; "Ceisiadau ar Hap"; " Gair am Gyfweiliadau"; "Beth y Mae Cyflogwyr Eisiau".

Os hoffech chi gael canllaw cyflym a defnyddiol i rwydweithio'n gyffredinol, gwylwch glip fideo AGCAS sy'n para **10 munud** - www.aber.ac.uk/cy/careers/how-we-can-help/in-house-publications/

Ewch i'n gwe-dudalennau sy'n cynnwys gwybodaeth am ddod o hyd i swyddi, yn ogystal â chyflogaeth mewn rhannau daearyddol penodol a gwybodaeth cyflogwyr am swyddi gwag - hynny i fyfyrwyr sydd ar eu blwyddyn olaf ac i raddedigion - yn ogystal â rhagor o gyngor ynghylch chwilio am swydd yn www.aber.ac.uk/cy/careers/.

➤ Yn olaf - cofiwch fod pawb yn hoffi helpu!

Peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod chi'n niwsans. Bydd llawer ohonom ni'n teimlo'n anghyffyrddus ynghylch cysylltu â phobl eraill a gofyn am gymorth. A dweud y gwir, bydd y mwyafrif o bobl yn fwy na pharod i siarad â rhywun sy'n cychwyn ar yrfa ac yn falch o deimlo bod rhywun yn meddwl eu bod yn arbenigwyr. Gwnaiff eich brwdfrydedd argraff arnynt. Cofiwch hefyd y byddwch chi'ch hun mewn sefyllfa i gynnig y cymorth hwnnw ryw ddydd.

Lleoliad a Manylion Cysylltu

- **Gwasanaeth Gyrfaedd**
Undeb y Myfyrwyr (drws nesaf i Siop yr Undeb)
Ar agor: dydd Llun - dydd Iau 9am - 5pm a
dydd Gwener 9am - 4.00pm
Ar gau rhwng 1pm a 2pm
Ffôn: 01970 622378
E-bost: careers@aber.ac.uk